# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Llywodraeth EM



# Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

Beth ydyw, sut y gallai eich helpu, a sut i wneud cais

Am ragor o wybodaeth ewch i:

**gov.uk/statepensiontopup**

Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth Top Up

Eich Pensiwn. Eich Dyfodol.

## Beth yw
## Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth?

Os ydych chi, neu aelod o'ch teulu wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y byddwch yn ystyried ffyrdd i sicrhau sicrwydd ariannol yn ddiweddarach mewn bywyd. Neu efallai y byddwch eisiau gwneud yn siŵr y gallwch barhau i wneud yr hyn rydych yn ei fwynhau.

Gallai ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth adael i chi wneud hyn drwy roi £1 i £25 yr wythnos yn ychwanegol yn gyfnewid am gyfandaliad. Gallwch wneud cais am Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth tan 5 Ebrill 2017.

Rydych yn gymwys os oes gennych hawl i Bensiwn y Wladwriaeth y DU ac rydych eisoes wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016. Mae hyn yn golygu dynion a anwyd cyn 6 Ebrill 1951 a merched a anwyd cyn 6 Ebrill 1953.

## Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth – A yw'n iawn i chi?

Mae'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn cynnig ffordd i roi hwb i'ch incwm ymddeol. Mae p'un a yw'r dewis iawn i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Sicrhewch eich bod yn gwirio a yw'n iawn i chi.

Cyn i chi wneud taliad, ystyriwch y pwyntiau hyn i weld bod ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn gweddu â'ch sefyllfa.

### Beth yw'r gost

Mae'r gost yn dibynnu ar faint rydych am ychwanegu at eich taliad Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r costau'n cynyddu yn dibynnu ar faint rydych ei eisiau – rhwng £1 a £25 yr wythnos.

Mae hefyd yn cael ei effeithio gan faint yw eich oed pan fyddwch yn gwneud y taliad: mae'r gost yn disgyn wrth i'ch oedran gynyddu. Mae hyn yn golygu y gall wneud synnwyr i aros hyd nes eich pen-blwydd nesaf cyn gwneud y taliad.

Mae ein cyfrifiannell ar-lein yn dweud wrthych faint y bydd pob punt o'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn ei gostio. Gallwch ddod o hyd iddo yn **www.gov.uk/state-pension-topup**

### Treth

Mae'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn drethadwy fel incwm, felly gwiriwch faint y byddech yn ei gael ar ôl treth.

Gall hefyd effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm rydych yn eu cael nawr neu yn y dyfodol.

### Ffyrdd eraill i roi hwb i'ch incwm ymddeol

Nid yr ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yw'r unig ffordd o gynyddu eich incwm. Mae'n werth ystyried beth arall sydd ar gael cyn gwneud cais.

**Rydym yn argymell eich bod yn cymryd cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud taliad.**

## Sut y gall ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth eich helpu chi

Mae mwy i'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth na'r incwm ychwanegol. Mae hefyd yn:

1

### Warantedig am oes

2

### Wedi'i ddiogelu rhag chwyddiant

Mae'r taliad pensiwn yn gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, felly ni fydd yn colli gwerth dros gyfnod o amser.

3

### Etifeddadwy

Yn y rhan fwyaf o achosion, gall eich priod neu'ch partner sifil gael rhwng 50% a 100% o'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth ar ôl i chi farw. Bydd eich partner sy'n goroesi, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael y pensiwn ychwanegol ar ôl iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, os nad ydynt eisoes wedi'i gyrraedd.

Mae'r rheolau ynghylch p'un a yw'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn etifeddol yr un fath ag ar gyfer Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/additional-state-pension/further-information**

## Ffyrdd eraill i roi hwb i'ch **Pensiwn y Wladwriaeth**

### Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Nid oes rhaid i chi gael eich Pensiwn y Wladwriaeth cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Am bob 5 wythnos y byddwch yn aros, bydd yn cynyddu o 1% am oes. Gall y rhan fwyaf o bobl ohirio eu Pensiwn y Wladwriaeth ond os ydych yn derbyn pensiwn gwraig weddw neu fudd-daliadau eraill, efallai na fyddwch yn gallu gwneud hynny. Gwiriwch y rheolau cyn penderfynu gohirio. Os ydych yn bodloni'r meini prawf, gallwch hefyd ohirio'r ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth, bydd eich holl daliad Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu, gan gynnwys swm yr ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych eisoes yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn gwneud eich taliad ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth, ni fyddwch yn cael yr incwm hyd nes y byddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth – ni ellir ei dalu ar wahân.

Ceir mwy o wybodaeth am ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, a sut i hawlio cyfandaliad yn hytrach nag ychwanegiad wythnosol, ewch i **www.gov.uk/deferring-state-pension**

### Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol

Os nad oes gennych y nifer llawn o flynyddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol sydd eu hangen i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth lawn, efallai y gallwch gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy wneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Mae'n werth gwneud hyn cyn gwneud taliad. Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

Y ffordd hyn, gallwch lenwi'r bylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol. Gallwch ddal wneud cyfraniad i'r ychwanegiad at Bensiwn Wladwriaeth ar ôl hynny. Gweler **www.gov.uk/pay-voluntary-class-3-national-insurance** i gael mwy o wybodaeth.

# Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais am yr ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth hyd at 5 Ebrill 2017. Yr hynaf ydych chi, y lleiaf y mae'n ei gostio, felly gall wneud synnwyr i aros hyd nes eich pen-blwydd nesaf cyn gwneud cais.

Unwaith rydych yn barod i wneud cais, dim ond dau gam hawdd mae'n ei gymryd:

**Ffoniwch ni neu ewch ar-lein**
Sicrhewch fod gennych eich rhif Yswiriant Gwladol gyda chi, gan fyddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi i brofi eich hunaniaeth.

- I wneud cais ar-lein, ewch i **www.gov.uk/statepensiontopup**
- I wneud cais dros y ffôn, ffoniwch 0300 200 1900 neu +44 191 2182076 os ydych yn ffonio o dramor

**Gwneud eich taliad**
Ar ôl i chi wneud cais, byddwn yn anfon ffurflen atoch drwy'r post yn esbonio sut i dalu. Gallwch dalu drwy:

- Debyd Uniongyrchol un-tro
- Taliad uniongyrchol
- Eich banc, yn eich cangen
- Swyddfa'r Post
- Drwy'r post (gall gymryd yn hirach na'r dulliau eraill)

## A dyna'r cyfan

Unwaith y byddwn wedi cael eich taliad, bydd swm uwch eich pensiwn yn daladwy o'r dyddiad hwnnw.

**Mae gennych gyfnod o 90 diwrnod i ailfeddwl. Os byddwch yn newid eich meddwl yn y cyfnod hwn, gallwch gysylltu â ni i ofyn am eich taliad yn ôl.**

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**gov.uk/statepensiontopup**
neu ffoniwch 0300 200 1900

Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth Top Up
Eich Pensiwn. Eich Dyfodol.